

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
16 IONAWR 2020

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir Y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd Y Sir, yr Wyddgrug dydd Iau, 16 Ionawr 2020.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Paul Johnson, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Aaron Shotton ac Arnold Woolley

DIRPRWY: Y Cynghorydd: Veronica Gay (ar ran Richard Jones)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr: Bernie Attridge ac Andy Williams

HEFYD YN BRESENNOL: Mynychodd y Cynghorydd Carolyn Thomas a'r Prif Weithredwr (Llywodraethu) fel arsylwyr.

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg ac Aelod Cabinet Cyllid Dros Dro; Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau; Y Cynghorydd Glyn Banks, Aelod Cabinet Cyllid; Prif Weithredwr; a Rheolwr Cyllid Corfforaethol.

Cofnod Rhif 71 – Cynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Shân Morris a Helen MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol) a Stuart (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu)

HEFYD YN BRESENNOL: Rheolwr y Gwasanaethau Democraidaidd a Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

68. TEYRNGED I'R DDIWEDDAR PETER EVANS

Yn ôl cais y Cadeirydd, Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion, bu iddynt godi mewn tawelwch fel teyrnged i Peter Evans, y cyn Rheolwr Democraidaidd a Llywodraethu, a fu farw.

69. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Gay gysylltiad personol ar eitem 4 ar yr agenda (cofnod rhif 71) fel aelod o'r bwrdd yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

70. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2019. Cynigiodd y Cynghorydd Heesom newid bychan i eirfa ar gofnod rhif 58 ac eiliwyd gan y Cynghorydd Cunningham.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

71. YMGYNGHORIAD STRATEGAETH AMGYLCHEDDOL GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Croesawyd cynrychiolwyr Shân Morris a Helen MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol) a Stuart Millington (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu) i'r cyfarfod i roi cyflwyniad llafar ar ddatblygiad Strategaeth Cynaliadwyedd ac Amgylchedd Hirdymor ar gyfer 2020 ymlaen gan yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFRA).

Er yr amlygwyd yr heriau ariannol yn y flwyddyn flaenorol, ffocws ymgynghoriad eleni oedd datblygu strategaeth trosfwaol yn nodi amcanion ar newid hinsawdd, cyfrifoldebau amgylcheddol a chymdeithasol i helpu gyda chynllunio ar gyfer y dyfodol. Y bwriad fyddai mabwysiadu dull gwahanol i weithio gyda phartneriaid ac i leihau'r effaith ar y gyllideb, a roedd 75% wedi'i dosrannu i gostau gweithwyr. Cynghorwyd yr Aelodau bod y gwasanaethau ymatebol ac ataliol wedi dod i gost o £50 y pen o'r boblogaeth ledled Gogledd Cymru. Rhoddwyd drosolwg ar y rôl ataliol a oedd yn cynnwys gweithgareddau i helpu i gadw pobl yn ddiogel ac i nodi problemau cymdeithasol. Ymysg heriau yn y dyfodol roedd parhad gwasanaeth diffodd tân wrth gefn a gweithio gyda sefydliadau partner i leihau'r risg o lifogydd.

Fel aelod blaenorol o'r Gwasanaeth Tân, roedd y Cynghorydd Cunningham yn adnabod gwerth diffoddwyr tân wrth gefn a'r effaith o weithgareddau atal tân. Yn yr ymgynghoriad, awgrymodd i rannu trefniadau cludo i gyfarfodydd bwrdd.

Amlygodd y Cynghorydd Heesom y perygl o lifogydd a newid hinsawdd fel y prif broblemau, a dywedodd y dylid ymgynghori â'r NWFRA ar geisiadau cynllunio, yn debyg i Gyfoeth Naturiol Cymru fel yr ymgynghorai statudol ar berygl o lifogydd. Eglurwyd dan y deddfwriaeth gyfredol, ymgynghorwyd â'r gwasanaeth ar y ddwy ardal benodol yn unig - mynediad i gerbydau'r gwasanaeth tân a chyflenwadau dŵr. Hefyd gofynnodd y Cynghorydd Heesom ynghylch ymgysylltiad gyda phobl ifanc a chynghorwyd ar yr ystod o weithgareddau atal tân ac addysg mewn ysgolion.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, siaradodd y cynrychiolwyr ynghylch cyfrifoldebau amgylcheddol a rennir gan bob corff cyhoeddus megis defnydd cynyddol o gyfarfodydd cynhadledd fideo a mesurau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau. Gobeithir y bydd newid o ddefnyddio cerbydau offer tân sydd yn rhedeg ar ddiesel yn newid cadarnhaol, ond mae hyn yn dibynnu ar wneuthurwyr yn datblygu dewis amgen addas. Roedd y dull effeithiol gan NWFRA i asesu cyn ymateb, a felly yn lleihau'r nifer o gamrybuddion, yn cael eu nodi fel arferion da.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Johnson ar y posibilrwydd am fwy o fesurau atal tân mewn ardaloedd gwledig, nodwyd bod y NWFRA yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i flaenoriaethu meysydd risg ac ymgysylltu â

thirfeddianwyr i wella rheoli tir, a bod cyflwyniad o dimau tanau gwyllt yn ystod 2020 yn manteisio.

Rhoddodd y Cynghorydd Bateman sylw ar effaith parcio ar y stryd mewn rhai ardaloedd a allai gyfyngu ar fynediad i gerbydau offer tân. Er nad oedd gan y Gwasanaeth Tân bwerau penodol i ddatrys hyn, roedd cyngor a chymorth ar gael i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Gofynnodd y Cynghorydd Woolley ynghylch risgiau yn y dyfodol a beth ellir ei wneud i helpu. Er bod demograffeg Gogledd Cymru a recriwtio diffoddwyr tân wrth gefn mewn ardaloedd penodol yn heriol, gallai'r cynghorau ar draws y rhanbarth helpu i sicrhau argaeledd o ddiffoddwyr tân wrth gefn drwy annog mwy o fusnesau i ryddhau eu gweithwyr o'u gweithle i gyflawni'r rôl hon.

Rhoddodd y Prif Weithredwr sylw ar safiad Sir y Fflint fel cyflogwr cyfrifol i gefnogi diffoddwyr tân wrth gefn. O ran y strategaeth amgylcheddol, roedd gan bob gwasanaeth cyhoeddus ymrwymiadau a roedd cyflawniadau targedau carbon niwtral yn her genedlaethol sylweddol a oedd yn cael ei flaenoriaethu mewn trafodaethau rhanbarthol. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar ymateb y Cyngor ar newid hinsawdd – trafodwyd yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd yn ddiweddarach yn yr wythnos – a nodwyd y gallai'r newidiadau mewn arferion caffael gael effaith gadarnhaol ar ôl troed carbon.

Wrth ddiolch i'r cynrychiolwyr am eu presenoldeb a'u cyflwyniad, diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am gynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd yn y fflatiau uchel yn Fflint, a oedd yn rhoi sicrwydd i breswylwyr.

PENDERFYNWYD:

Diolch i gynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am fod yn bresennol.

72. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi cynnydd ar bwyntiau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol. Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae camau gweithredu wedi'u cwblhau ar adroddiad Pont Sir y Fflint, Adroddiad Blynyddol Diogelwch Cymunedol a chostau trwyddedu Citrix.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Cunningham ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Johnson.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

73. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Bateman ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Johnson.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a
- (b) Bod Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

74. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2019/20 (MIS 8)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw fel yr oedd ym Mis 8 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cabinet ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn rhagamcanu beth fyddai sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pe bai popeth yn aros heb ei newid.

Roedd y diffyg gweithredol o £1.892m yn gadarnhaol o'i gymharu â'r £0.301m yn y mis blaenorol. Roedd yr amrywiaeth sylweddol ar y gorwariant o £2.080m ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir, a'r adolygiad parhaus ar yr hawliad gostyngiad Treth Y Cyngor i unigolyn sengl sydd wedi cynhyrchu £0.227m hyd yma. Y gorwariant mwyaf sylweddol oedd ar gyfer Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a Strydwedd a Chludiant, fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor, a roedd unrhyw effeithiau cylchol wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2020/21. Gan edrych ar y sefyllfa, roedd y tîm Prif Swyddog wedi gosod targed i leihau sefyllfa gorwariant i £1.500m-1.750m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Ar y llwybr ôl-rhain arbedion a gynlluniwyd yn y flwyddyn, roedd 91% wedi'u cyflawni a disgwylir i hyn aros yn un fath ar ddiwedd y flwyddyn.

Yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, mae goblygiadau'r Setliad Dros Dro a ddaeth i law ym mis Rhagfyr yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd a bydd y canfyddiadau yn cael eu hadrodd i'r Cyngor yn ddiweddarach y mis hwn.

O ran y Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau, roedd yr amcangyfrif balans diwedd blwyddyn yn y Cronfeydd Wrth Gefn Arian at Raid yn £2.977m.

Yn y Cyfrif Refeniw Tai, roedd gorwariant arfaethedig o £0.131m yn gadael balans terfynol heb ei neilltuo yn £1.192m, a oedd yn uwch na'r canllawiau argymelledig ar wariant.

Dywedodd y Prif Weithredwr er bod cynnydd wedi'i wneud ar y sefyllfa gorwariant, roedd hyn yn parhau yn bryder oherwydd y newidiadau yn y galw am Leoliadau y Tu Allan i'r Sir. Er bo gwaith arwyddocaol wedi'i gyflawni i leihau gwariant dianghenraid ar draws y portffolios, roedd cynnydd dda yn cael ei wneud ar leihau costau cludiant ysgol ac adolygiad o'r gostyngiad Treth Y Cyngor person sengl. Nodwyd bod y cyfleoedd ar grantiau penodol yn cael eu harchwilio a'r effaith o amodau tywydd ar y gyllideb cynnal a chadw y gaeaf. Er bod pwysau wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2020/21, roedd Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn

parhau i fod y broblem fwyaf, er yr effaith gadarnhaol o ddatrysiadau creadigol lleol.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Heesom ar falansau ysgol, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y rhagamcan wedi seilio ar ddisgwyliad o'r hysbysiad hwyr o grantiau penodol tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn dilyn cwestiwn arall, darparodd y Prif Weithredwr wybodaeth ar y lefel o adnoddau yn y tîm Archwilio Mewnol.

Cododd y Cynghorydd Woolley ei bryderon ar ddyddiad anghywir a nodwyd yn yr adroddiad eglurhaol ac anghysondebau amrywiol yn y ffigurau. Hefyd gofynnodd pa eitemau o wariant dianghenraid oedd wedi'u cyfeirio fel bod effaith y penderfyniadau hynny yn cael eu hystyried. Ar y pwynt olaf, dywedodd y Prif Weithredwr bod disgwyl ataliad o wariant o'r fath a roedd wedi'i grynhoi yn yr adroddiadau. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod anghywirdeb yn yr adroddiad oherwydd y crynhoi ffigurau a amcangyfrifwyd, a byddai'n gwirio hyn ar gyfer yr adroddiad misol nesaf.

Gofynnodd y Cynghorydd Roberts bod unrhyw faterion a nodwyd yn yr adroddiadau yn cael eu codi gyda'r swyddogion ymlaen llaw. Dywedodd bod Llywodraeth y DU yn dod â chaledi i ben, ynghyd â phenderfyniadau Llywodraeth Cymru, roedd wedi arwain at sefyllfa gadarnhaol i'r Cyngor i symud ymlaen i 2020/21. Wrth ddiolch i'r Aelodau, swyddogion a phawb ynghlwm, diolchodd yn arbennig i'r tîm Pensiynau am y canlyniadau cadarnhaol wrth gyfrannu at sefyllfa'r gyllideb.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r gwaith yn parhau i leihau'r gorwariant a bydd angen buddsoddi mewn datrysiadau isranbarthol ar brif ffactorau megis Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir. Ar hyn, canmolodd yr Uwch-Reolwr (Plant a'r Gweithlu) am ei ymglymiad.

Rhoddodd y Swyddogion eglurhad i'r Cynghorydd Bateman ar incwm maes parcio, lle'r oedd yr amcangyfrifon wedi'u hadolygu ar gyfer cyllideb 2020/21. Cytunodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol i ddarparu ymateb ar wahân ar y rhesymau dros symud costau tâl-dros-ben yswiriant dan y Gwasanaethau Cynnal a Rheoli.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Bateman ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Johnson.

PENDERFYNWYD:

Ar ôl ystyried yr Adroddiad Monitor Cyllideb Refeniw 2019/20 (mis 8), cadarnhaodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno adrodd i'r Cabinet.

75. **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.20am)

.....
Y Cadeirydd